
Adolygiad o God Ofcom ar Wasanaethau Mynediad i Deledu, a Chanllawiau ynghylch Hygyrchedd y BBC

Bydd yr ymgynghoriad ar y cod canllawiau fydd yn berthnasol i'r BBC, a newidiadau ansylweddol i God Ofcom ar Wasanaethau Mynediad i Deledu

YMGYNGHORIAD:

Dyddiad cyhoeddi: 20 Tachwedd 2019

Dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion: 15 Ionawr 2020

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg

1

1. Trosolwg

Mae Cod Ofcom ar Wasanaethau Mynediad i Deledu yn cynnwys canllawiau y mae'n rhaid i'r BBC eu dilyn o ran darparu gwasanaethau mynediad ar ei sianeli teledu (is-deitlau, sain-ddisgrifio, ac iaith arwyddion). Mae Ofcom yn adolygu sut dylai'r BBC wneud ei Wasanaethau Cyhoeddus yn y DU yn hygyrch yn unol â Siarter Brenhinol a Chytundeb 2016 y BBC. Ar yr un pryd, rydym yn ymgynghori ynghylch newidiadau i wneud ein Cod ar Wasanaethau Mynediad i Deledu yn fwy eglur i'r holl ddarlledwyr.

Beth rydym yn ei gynnig – yn gryno

Rydym yn cynnig cynnal y targedau presennol ar gyfer sianeli teledu'r BBC, sy'n cael eu cynnwys yng Nghod Ofcom ar Wasanaethau Mynediad i Deledu ('Cod ar Wasanaethau Mynediad i Deledu')

Mae hyn yn golygu y dylai'r BBC barhau i ddarparu: isdeitlau ar 100% o'i raglenni, sain-ddisgrifiadau ar 10%, ac iaith arwyddion ar 5%.

Er mwyn sicrhau y bydd y targedau'n parhau i fod yn gymesur, mae'r Cod Mynediad i Deledu yn nodi canllawiau ar sut gallai sianeli cael eu heithrio o'r targedau, neu sut gallent fod yn atebol i ofynion eraill. Rydym o'r farn y dylai'r canllawiau cyfredol o ran eithriadau barhau i fod yn berthnasol i sianeli teledu'r BBC.

Rydym yn cynnig ystyried y canllawiau ar hygyrchedd BBC iPlayer ar wahân.

Yn Rhagfyr 2018, fe wnaethom gyflwyno argymhellion i'r Llywodraeth ar ddrafftio rheoliadau i wella hygyrchedd gwasanaethau rhaglenni fideo ar-alw wedi'u rheoleiddio.¹ Bydd y rheoliadau'n cael eu hategu gan god canllawiau Ofcom a fydd yn nodi sut dylai darparwyr rhaglenni ar-alw gyflawni'r gofynion ("y Cod Ar-alw"). Rydym yn bwriadu ymgynghori i gynnwys ein canllawiau arfaethedig yn y Cod Ar-Alw, ac yn ein canllawiau arfaethedig ar gyfer rhaglenni ar-alw'r BBC (yn cynnwys BBC iPlayer) ar yr un pryd.

Hefyd, rydym yn cynnig gwneud rhai newidiadau i gynllun ac i eiriad y Cod Mynediad i Deledu fel ei fod yn haws i'w ddefnyddio i ddarlledwyr ac i ddefnyddwyr y gwasanaeth mynediad. Roedd angen gwneud hyn gan fod diwygio'r Cod yn y blynyddoedd diweddar wedi'i wneud yn anoddach i'w ddilyn. Fel rhan o'r newidiadau hyn, rydym yn cynnig creu dogfen ar wahân ar gyfer ein canllawiau arfer gorau ("Canllawiau ar ddarpariaeth gwasanaethau mynediad i deledu"). Mae hyn yn adlewyrchu sut mae'r canllawiau hyn yn wahanol i weddill y Cod, sy'n canolbwyntio ar sicrhau ansawdd a hygyrchedd gwasanaethau mynediad. Rydym yn bwriadu ymgynghori ynghylch newidiadau i'r canllawiau maes o law.

¹ Ar 5 Tachwedd 2019, ysgrifennodd y Llywodraeth at Ofcom yn gofyn i ni gynnal ymgynghoriad pellach i ddarparu manylion ychwanegol am y rheoliadau. Wrth i ni ysgrifennu'r ddogfen hon, rydym yn paratoi'r ymgynghoriad.

Beth nesaf?

- 1.1 Rydym yn croesawu sylwadau ar y cynigion a nodir yn y ddogfen hon nes 5pm, 15 Ionawr 2019.
- 1.2 Yn dilyn ein hadolygiad o ymatebion rhanddeiliaid, rydym yn bwriadu cyhoeddi datganiad a Chod diwygiedig yn ystod Gwanwyn 2020, a ddaw i rym yn syth.
- 1.3 Rydym yn cynnig ymgynghori ynghylch canllawiau perthnasol ar gyfer rhaglenni ar-alw yn y DU y BBC ar wahân maes o law.